

Cyfeirnod: IR756

Dyddiad cyhoeddi: 23 Hydref 2020

## Landlord cymdeithasol cofrestredig – pwerau

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch e-bost dyddiedig 01 Hydref pan wnaethoch ofyn am wybodaeth am bwerau sy'n ymwneud â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (LCCau).

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhychu eich cwestiwn isod ac wedi nodi ein hymateb cyfatebol:

***A allwch ddweud wrthyf a yw'r pwerau hyn, sydd gennych mewn perthynas â LCCau, erioed wedi cael eu harfer?***

Ydyn, mae pwerau wedi'u harfer mewn perthynas ag arolygiadau LCCau. Daeth y gwaith hwn i ben yn 2008 a chyhoeddwyd ['Gwersi o Arolygiadau Cymdeithasau Tai 2005-2008'](#) yn 2009. Mae ein holl adroddiadau cenedlaethol cyhoeddedig ar ein gwefan (neu ar gael drwy archifau hanesyddol y gellir eu chwilio ar y we). Dyma adroddiad a allai fod yn berthnasol i'ch ymholiad ar LCCau: [Cynnydd o ran cyrraedd Safon Tai Ansawdd Cymru](#) 2012.

Mae manylion ymchwiliad i drefn reoleiddio cymdeithasau tai a gynhaliwyd gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd yn 2017 i'w gweld yma: <https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=16191>.

Rydym hefyd wedi cynnwys LCCau i ryw raddau mewn gwaith a wneir o dan wahanol bwerau ac mae amryw o adroddiadau astudiaethau llywodraeth leol AGW wedi gwneud sylwadau ar rôl LCCau. Gellir dod o hyd i'r rhain ar ein gwefan, ac mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys:

[Diwygiadau Lles](#) (2015)

[Digartrefedd](#) (2018)

[Addasiadau](#) (2018)

[Pobl yn cysgu ar y stryd](#) (2020)

Rwy'n gobeithio bod hyn yn ddefnyddiol, os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am fy ffordd o ymdrin â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir  
Swyddog Gwybodaeth